

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	13.11.23
Pwnc / Subject:	Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r daith

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000¹ a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

¹ Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 o 1 Ebrill 2024, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cydnabod ac yn croesawu'r ymgais i ddarparu canllawiau cryno a buddiol i ysgolion i'w cynorthwyo â chynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Ar hyn o bryd, mae llawer o ganllawiau ar gael i ysgolion a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut gellid mireinio canllawiau 'Ymlaen â'r Daith' a rhoi mwy o ffocws i'r cynnwys. Gallai fod yn fuddiol defnyddio 'Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm' fel templed ar gyfer diwygiadau i'r canllawiau 'Ymlaen â'r Daith' yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu dod â chanllawiau at ei gilydd ond yn meddwl y gallai fod yn fuddiol ystyried sut y gellid symleiddio a lleihau negeseuon i wneud y canllawiau yn fwy dealladwy i arweinwyr a staff ysgolion. Gallai fod yn fuddiol datblygu dogfen 'canllawiau ar dudalen' fel lleoliad un stop i ysgolion allu gweld gwybodaeth a chanllawiau pwysig.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

(i) Os ydw, beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i iii isod)

Lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir		Sefydliadau addysg uwch	
Ysgol gynradd		Awdurdodau esgobaethol	
Ysgol arbennig		Consortiwm rhanbarthol / partneriaeth	
Ysgol uwchradd		Awdurdod lleol	
Ysgol pob oed		Darparwr hyfforddiant preifat	
Uned cyfeirio disgyblion (UCD)		Trydydd sector	
Lleoliad AHA arall		Llywodraeth	
Undeb athrawon		Corff llywodraethol	
Addysg bellach		Sefydliad dyfarnu	
Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth)	le		
Arall (nodwch):			

(ii) Beth yw eich prif rôl?

Pennaeth		Canghellor / Is-ganghellor	
Athro		Darlithydd	
Ymarferwr		Arolygydd	le
Athro newydd gymhwyso		Llywodraethwr	
Cynorthwydd addysgu		Swyddog gwella ysgolion	
Uwch arweinydd		Arall (nodwch):	
Athro cyflenwi			
Pennaeth / Is-bennaeth			

(iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi, ym mha rinwedd hoffech chi roi adborth?

Rhiant neu ofalwr		Cyflogwr	
Oedolyn 18 oed ac yn hŷn (nid yw'n rhiant nac yn ofalwr)		Prentis	
Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed)		Arall (nodwch):	
Myfyriwr / academydd			

(iv) Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------

(v) Os 'ydw', nodwch

Estyn

Cwestiwn 1 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau arfaethedig hyn, 'Ymlaen â'r Daith', ynghyd â chanllawiau presennol y Cwricwlwm i Gymru, yn mynegi disgwyliadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru?

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Cytuno i raddau	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno i raddau	<input type="checkbox"/>	Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------------------	-------------------------------------	--------------------	--------------------------	------------------	--------------------------

Esboniwch eich ateb.

Rydym yn croesawu'r ymgais i symleiddio canllawiau ar gyfer ysgolion gan fod ystod eang o ganllawiau iddynt eu hystyried ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu na fydd canllawiau 'Ymlaen â'r Daith', yn ei ffurf bresennol, yn helpu ysgolion i fod yn glir am ddisgwyliadau a gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut gellid mireinio canllawiau 'Ymlaen â'r Daith' i roi trosolwg clir i ysgolion o ddisgwyliadau a'r camau y gallant eu cymryd i ddatblygu a chyflwyno eu cwricwlwm.

Gallai fod yn fuddiol ystyried canllawiau 'Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm' fel gwaelodlin ar gyfer datblygu canllawiau 'Ymlaen â'r Daith'. Byddai hefyd yn fuddiol ystyried datblygu dogfen 'canllawiau ar dudalen' i gynorthwyo ysgolion i fanteisio ar y wybodaeth a'r canllawiau perthnasol.

Cwestiwn 2 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau arfaethedig hyn, 'Ymlaen â'r Daith', yn cynnwys lefel briodol o fanylion?

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Cytuno i raddau	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno i raddau	<input type="checkbox"/>	Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------------------	-------------------------------------	--------------------	--------------------------	------------------	--------------------------

Nodwch yma ble rydych chi'n meddwl mae'r bylchau a beth y dylid ei ychwanegu neu beth y gellir ei ddileu.

Er bod y canllawiau'n darparu crynodebau buddiol o ddisgwyliadau, maent yn eithaf manwl o hyd, a bydd yn cymryd amser i ysgolion eu deall a'u hystyried. Efallai byddai'n werth ystyried a ellid mireinio'r canllawiau hyn ymhellach a'u hamlinellu mewn ffordd debyg i ganllawiau 'Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm'. Byddai hyn yn helpu ysgolion i weld disgwyliadau clir ac ystyried sut gallent gynllunio i wella a datblygu eu cwricwlwm dros amser.

Cwestiwn 3 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau arfaethedig hyn, 'Ymlaen â'r Daith', yn cyfeirio at ddeunyddiau ategol y Cwricwlwm i Gymru ac adrannau perthnasol eraill o ganllawiau'r Fframwaith?

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Cytuno i raddau	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno i raddau	<input type="checkbox"/>	Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-----------------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------------------	--------------------------	------------------	--------------------------

Nodwch yma ddeunyddiau ategol sydd ar goll ac a fyddai'n ddefnyddiol.

Mae'r dolenni at ganllawiau eraill yn fuddiol ond mae llawer o ganllawiau i arweinwyr a staff ysgolion ymgysylltu â nhw. Gallai fod yn fuddiol arddangos y canllawiau hyn mewn fformat mwy dealladwy gyda chrynodeb o beth fydd pob rhan o'r canllawiau yn ei gynnwys.

Byddai hefyd yn fuddiol i Lywodraeth Cymru ystyried amlinellu sut maent yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio canllawiau 'Ymlaen â'r Daith' i gefnogi eu cynllunio a'u datblygiad.

Gallai hefyd fod yn fuddiol amlygu y gall y canllawiau ar gyfer lleoliadau nas cynhelir fod yn fuddiol i ysgolion pan fyddant yn cynllunio ar gyfer plant sy'n cael eu hawl addysgol gynnar mewn ysgolion.

Cwestiwn 4 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar grynodedbau'r cwricwlwm a ddarperir yn 'Ymlaen â'r Daith', yn ddefnyddiol?

Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Cytuno i raddau	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno i raddau	<input type="checkbox"/>	Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-----------------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------------------	--------------------------	------------------	--------------------------

Nodwch yma ba wybodaeth neu gymorth ychwanegol ar gyfer datblygu a chyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm fyddai'n fuddiol.

Mae'r canllawiau ar grynodedbau'r cwricwlwm yn rhoi trosolwg buddiol o ddisgwyliadau, a gallai'r dolenni at enghreifftiau fod yn fuddiol i ysgolion.

Efallai byddai'n werth ystyried sut gallai unrhyw ganllawiau gynorthwyo ysgolion ymhellach i ddatblygu eu crynodebau o'r cwricwlwm, er enghraifft trwy nodi lefel y manylder sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol agweddau. Fel rhan o hyn, gallai fod yn fuddiol rhoi disgwyliad cliriach ynglŷn â sut dylai ysgolion ddarparu gwybodaeth am y modd y mae'r ysgol yn ymdrin â dilyniant dysgu.

At ei gilydd, mae ysgolion yn ei chael yn anodd datblygu eu hymagweddau at ddilyniant ac asesu. Byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir am y gwahaniaethau rhwng cynllunio ar gyfer dilyniant a sicrhau cynnydd mewn dysgu.

Cwestiwn 5 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol yr adran hon, 'Ymlaen â'r Daith' o'r Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sylwadau ategol

Nid yw'r canllawiau hyn yn debygol o drin y Gymraeg yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd.

Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid yr adran hon, 'Ymlaen â'r Daith' o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu

- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau ategol

Byddai'n fuddiol defnyddio 'Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm' fel canllaw gwaelodlin i ffurfio unrhyw ganllawiau ychwanegol.

Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut gallent gefnogi'r system trwy ddatblygu disgwyliadau gofynnol y dylai disgyblion ledled Cymru fod yn eu gwneud ar wahanol adegau. Byddai hyn yn helpu cynnal disgwyliadau uchel ledled Cymru ac yn cynorthwyo ysgolion wrth iddynt gynllunio a datblygu eu cwricwlwm.

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: